# Dyfarniadau/Tystysgrifau/ Diplomâu Lefel 2 mewn Trin Gwallt a Barbro (3002)

## Pecyn Asesu

www.cityandguilds.com
Awst 2024
Fersiwn 3.1

**Am City & Guilds**
City & Guilds yw prif ddarparwr cymwysterau galwedigaethol y D.U., gan gynnig mwy na 500 o ddyfarniadau mewn ystod eang o ddiwydiannau, gan fynd o lefel mynediad i lefelau uchaf cyflawniad proffesiynol. Gyda mwy nag 8500 o ganolfannau mewn 100 o wledydd, caiff City & Guilds ei gydnabod gan gyflogwyr ledled y byd am ddarparu cymwysterau sy'n cynnig prawf o'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael gwaith wedi'i wneud.

***Grŵp City & Guilds***
Mae Grŵp City & Guilds yn cynnwys City & Guilds, ILM (Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth sy'n cynnig cymwysterau rheolaeth, deunyddiau dysgu a gwasanaethau aelodaeth) a City & Guilds, NPTC (Cyngor Profion Hyfedredd Cenedlaethol, sy'n cynnig cymwysterau tir a gwasanaethau aelodaeth), City & Guilds HAB (y Corff Dyfarnu Lletygarwch), a Chanolfan Datblygu Sgiliau City & Guilds. Mae City & Guilds hefyd yn rheoli Arholiadau'r Cyngor Peirianneg ar ran y Cyngor Peirianneg.

**Cyfleoedd Cyfartal**
Mae City & Guilds yn cefnogi'n llwyr yr egwyddor o gyfleoedd cyfartal ac rydym yn ymrwymedig i fodloni'r egwyddor hon yn ein holl weithgareddau a'n deunydd cyhoeddedig. Mae copi o'n datganiad polisi cyfle cyfartal ar gael ar ein gwefan.

**Hawlfraint**
Mae cynnwys y ddogfen hon, oni bai y nodir fel arall, yn hawlfraint © The City and Guilds of London Institute ac ni ellir ei gopïo, ei atgynhyrchu na'i ddosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw.

Fodd bynnag, caiff canolfannau cymeradwy City & Guilds a dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohono ar fewnrwydi canolfannau ar yr amodau canlynol:
caiff staff canolfannau gopïo'r deunydd yn unig ar gyfer dibenion addysgu dysgwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds, neu at ddibenion gweinyddol mewnol
caiff ymgeiswyr gopïo'r deunydd yn unig at eu dibenion eu hunain wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds

Mae'r Amodau Copïo Safonol (a geir ar ein gwefan) hefyd mewn grym.

Noder: Nid yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn hawlfraint © The City & Guilds of London Institute. Gwiriwch yr amodau y gellir eu copïo gyda'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol.

**Cyhoeddiadau**
Mae cyhoeddiadau City & Guilds ar gael ar ein gwefan neu oddi wrth ein hadran Gwerthiant Cyhoeddiadau, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg cyhoeddi. Fodd bynnag, caiff cynhyrchion a gwasanaethau City & Guilds eu datblygu a'u gwella'n barhaus a chedwir yr hawl i newid cynhyrchion a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb am golled neu niwed sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

**City & Guilds**
**1 Giltspur Street**
**Llundain EC1A 9DD**
**T +44 (0)844 543 0000**
**F +44 (0)20 7294 2413**
**www.cityandguilds.com**
**centresupport@cityandguilds.com**

# Dyfarniadau/Tystysgrifau/ Diplomâu Lefel 2 mewn Trin Gwallt  a Barbro (3002)

## Pecyn Asesu

www.cityandguilds.com
Awst 2024
Fersiwn 3.1

City & Guilds

**Sgiliau am ddyfodol disglair**

**www.cityandguilds.com**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Canllaw i aseswyr** | **5** |
| **2** | **Cyflwyniad i'r aseiniadau – i ymgeiswyr** | **13** |
| **3** | **Ffurflen adborth yr aseiniad** | **15** |
| **4** | **Aseiniadau** | **17** |
| **Aseiniad 203** | **Ymgynghori â'r cleient am wasanaethau trin gwallt** | **24** |
| **Aseiniad 213** | **Arddangos stoc er mwyn hyrwyddo gwerthiannau yn y salon** | **94** |
| **Aseiniad105** | **Plethu a throelli'r gwallt** | **143** |
| **Cysylltiadau defnyddiol** | | **151** |

City & Guilds

**Sgiliau am ddyfodol disglair**

**www.cityandguilds.com**

# 1 Canllaw i aseswyr

**Cyflwyniad**
Bwriad y cymwysterau yw darparu dealltwriaeth o'r sector, y sgiliau galwedigaethol a'r wybodaeth sydd eu hangen. Maent hefyd yn darparu ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o swyddi a lleoliadau gwaith yn y sector a fydd yn galluogi ymgeiswyr i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â gyrfaoedd yn y sector.

Nid yw'r cymwysterau yn dilyn y strategaeth asesu sy'n gysylltiedig â'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol, h.y. bod yn rhaid arddangos y sgiliau ar gleientiaid go iawn, sy'n talu, mewn awyrgylch gwaith realistig, o dan bwysau masnachol ac o fewn amser sy'n dderbyniol ar gyfer gwasanaeth masnachol.

**Asesu**
Rhoddir y pwyslais ar 'ddysgu trwy gyflawni', nid ar gymhwysedd. Felly, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau nifer o dasgau a/neu brofion i ddangos eu cyrhaeddiad o ran sgiliau ymarferol a gwybodaeth greiddiol.

Ar gyfer yr asesiadau crynodol o'r cymhwyster mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr gyflawni:
- tasgau ymarferol, a
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dasg/tasgau mewn asesiad neu mewn prawf/profion ar-lein.

Mae uned 105 yn cael ei asesu drwy gyfrwng aseiniad yn unig.

**Profion ar-lein**
Mae City & Guilds wedi cynhyrchu profion ar-lein ar gyfer pob uned er mwyn ymdrin â gofynion asesu gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'r asesiadau ar-lein ar gael drwy gyfrwng y system Asesu e-Volve. Ceir gwybodaeth ynglŷn â sut i ddod yn ganolfan GOLA ar ein gwefan **www.cityandguilds.com/evolve**

Er mwyn cofrestru'ch ymgeiswyr ar gyfer y cymhwyster a'r profion ar-lein, mae'n bwysig defnyddio'r rhif cywir. Cyfeiriwch at y Walled Garden ar gyfer y rhifau hyn.

Rhoddir gradd o **basio** neu **fethu** yn unig ar gyfer y profion ar-lein hyn. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ennill 60% neu mwy i lwyddo. Mae'r profion ar-lein hyn yn rhai di-lyfr sy'n rhaid eu harolygu. Gall yr arolygwr fod yn diwtor/aseswr. Pan nad yw ymgeisydd yn pasio, gellir rhoi cyfle iddynt ail sefyll y prawf, gan roi amser digonol iddynt adolygu. Mae hyn yn ôl doethineb y ganolfan.

**Aseiniadau**
Mae pob aseiniad wedi'i rannu'n gyfres o dasgau.

Fel arfer, mae'n ofynnol i ymgeiswyr yn y **tasgau gwybodaeth:**
- arddangos eu gwybodaeth o'r pwnc, h.y. cynhyrchu taflen wybodaeth neu daflen ffeithiau
- ymchwilio a chofnodi manylion am wasanaethau trin gwallt, steiliau, cynnyrch a ffasiynau, neu'r diwydiant.

**Ni** fydd yn ofynnol i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y prawf ar-lein ar gyfer yr uned gwblhau'r tasgau gwybodaeth yn yr aseiniad.

**Nid** yw'r tasgau ymchwilio a chofnodi yn yr aseiniadau yn brofion di-lyfr**.** Gellir eu cwblhau i ffwrdd o'r ganolfan o fewn cyfyngiadau amser a osodwyd gan y ganolfan, yn ystod amser personol yr ymgeiswyr ac ar eu cyflymdra eu hunain.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth drwy ddefnyddio adroddiadau, taflenni gwybodaeth, canllawiau ac ati fodd bynnag, dim ond canllaw yw hwn ac ni ddylid cosbi ymgeiswyr am ddarparu tystiolaeth mewn dull arall.

Dylid annog ymgeiswyr i ddefnyddio lluniau, ffotograffau a darluniadau i ddarlunio golwg lle bo'n briodol.

Disgwylir i aseswyr anodi gwaith yr ymgeiswyr a defnyddio'r ffurflen adborth i ddarparu adborth.

Gall yr ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddiannus ailadrodd tasgau. Bydd hyn yn ôl doethineb y ganolfan.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr yn ystod y **tasgau ymarferol** arddangos eu sgiliau galwedigaethol. Mae gan yr holl arsylwadau ymarferol restr wirio. Mae'n rhaid arddangos yr **holl** feini prawf yn y rhestr wirio yn llwyddiannus.

Mae amseru'r arsylwadau yn hyblyg, ond er mwyn cadw at gywirdeb yr asesiad, dylid eu cynnal mor agos â phosib at y gwaith ysgrifenedig ar gyfer yr uned dan sylw.

Gall yr ymgeiswyr ymgyfarwyddo â rhestr wirio'r arsylwi cyn yr arsylwad ymarferol. Fodd bynnag, nid oes hawl i'r ymgeiswyr ddefnyddio rhestr wirio'r arsylwi wrth gwblhau tasgau ymarferol.

Dylid defnyddio pobl ar gyfer pob arsylwad ymarferol adolygol oni bai am yr unedau canlynol ble gellid defnyddio blociau:

- Pyrmio a niwtroleiddio'r gwallt
- Y celfyddyd o liwio gwallt
- Steilio gwallt dyn
- Plethu a dirdroi gwallt.

**Mae'n arfer da i ymgeiswyr arddangos eu sgiliau technegol ar fodelau. Os na ellir darparu ystod eang o gleientiaid, yna gellir defnyddio blociau.**

Mae amseru'r arsylwadau yn hyblyg, ond er mwyn cadw at gywirdeb yr asesiad, dylid eu cynnal mor agos â phosib at y gwaith ysgrifenedig ar gyfer yr uned dan sylw.

**Cyflwyno'r aseiniad i'r ymgeiswyr**

Byddai o fudd egluro i'r ymgeiswyr yr hyn sy'n ofynnol yn yr aseiniadau, a'r modd y mae'r tasgau ymarferol yn cael eu graddio. Dylai'r ymgeiswyr gael y cyfle i ymgyfarwyddo â'r modd y mae'r tasgau hyn yn cael eu graddio.

**Yr amseru ar gyfer aseiniadau**

Dylai'r ganolfan lunio amserlen gyflwyno, sydd wedi'i reoli gan y cynllun asesu cyffredinol ar gyfer y cwrs, i'w drafod rhwng y tiwtor/aseswr a'r ymgeisydd. Gall hyn ddangos y gellir gosod rhai ymgeiswyr ar lwybr carlam.

Mae'r berthynas rhwng cyflwyno cwrs, cyflwyno aseiniadau a'u dyddiad cau ar gyfer eu dychwelyd yn faterion y dylid cytuno arnynt yn lleol rhwng y tiwtoriaid a'r ymgeiswyr.

**Cyflwyno aseiniadau**

Argymhellir y dylid rhoi cyfle i ymgeiswyr gyflwyno drafft o'u gwaith ysgrifenedig i'w tiwtor/aseswr, o fewn amserlen a gytunwyd, er mwyn cael adborth.

**Dilysrwydd**

Atgoffir y canolfannau i wirio dilysrwydd gwaith pan fo ymgeiswyr o bosibl yn defnyddio testunau a'r we er mwyn cwblhau tasgau.

**Adborth**

Dylai aseswyr ddarparu adborth ar bob achlysur y cynhelir arsylwad sgiliau.

**Cofnodion yr ymgeisydd o waith cwrs**

Dylid annog ymgeiswyr i gadw cofnod o'u gwaith yn ofalus mewn portffolio. Efallai bod hwn yn ddull anghyfarwydd o gadw cofnod i nifer ohonynt, ond mae'n ddisgyblaeth dda fydd o les iddynt wrth symud ymlaen i'r dysgu a'r hyfforddiant. Yn ogystal, mae'r themâu dysgu yn dueddol o ailymddangos mewn cymwysterau eraill y byddant o bosib am eu dilyn, ac efallai mai dim ond ychwanegu ychydig i'r hyn y maent eisoes wedi'i wneud y bydd ei angen er mwyn cyrraedd y safon newydd.

**Marcio a graddio aseiniadau**

Rhoddir gradd i **bob** aseiniad. Fodd bynnag, gweithredir rheolau graddio gwahanol **ar sail y lefel.**

| **Aseiniadau Lefel 1**<br>**(rhifau yn cychwyn gyda 1)** | **Aseiniadau Lefel 2**<br>**(rhifau yn cychwyn gyda 2)** |
|---|---|
| Rhoddir gradd o **basio, teilyngdod** neu **ragoriaeth** ar gyfer **tasgau gwybodaeth**<br><br>Rhoddir manylion ynghylch sut i farcio a graddio tasgau gwybodaeth ar dudalennau *Y meini prawf ar gyfer marcio a graddio* pob aseiniad.<br><br>Mae **tasgau ymarferol** yn rhai **pasio/methu** yn unig.<br><br>Er mwyn pasio, mae'n rhaid bod ymgeiswyr wedi ennill neu arddangos yr holl bwyntiau arsylwi ar restr wirio'r arsylwi.<br><br>Bydd y radd a enillir yn y dasg/tasgau gwybodaeth yn pennu'r radd **gyffredinol** ar gyfer yr uned.<br><br>Er mwyn hawlio gradd, mae'n rhaid i ymgeiswyr basio'r dasg ymarferol a'r | Mae **tasgau gwybodaeth** yn rhai **pasio /methu** yn unig.<br><br>Er mwyn pasio, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gynnwys yr **holl** bwyntiau bwled **ymhob** tasg ac unrhyw isafswm o ofynion fel y rhestrir yng nghanllaw'r aseswr gan arddangos cywirdeb a dealltwriaeth.<br><br>Rhoddir gradd o **basio, teilyngdod** neu **ragoriaeth** ar gyfer **tasgau ymarferol**<br>Rhoddir manylion ynghylch sut i farcio a graddio tasgau ymarferol ar dudalennau *Arsylwi Ymarferol* pob aseiniad.<br><br>Bydd y radd a enillir yn y dasg/tasgau ymarferol yn pennu'r radd **gyffredinol** ar gyfer yr uned.<br><br>Er mwyn hawlio gradd, mae'n rhaid i ymgeiswyr basio'r dasg/tasgau ymarferol a naill ai'r dasg/tasgau gwybodaeth yn yr |

| | |
|---|---|
| dasg/tasgau gwybodaeth.<br><br>**D.S. Nid** oes unrhyw brofion ar-lein ar gyfer yr unedau yma. | aseiniad neu’r prawf ar-lein perthnasol. |

**Graddio cyffredinol yr aseiniadau**

**Enghraifft o Daflen Marciau Aseiniad – Aseiniadau Lefel 1**

Rhoddir pwyntiau ar gyfer **pob tasg gwybodaeth.** Pasio = 1 Pwynt, Teilyngdod = 2 bwynt, Rhagoriaeth = 3 phwynt.

Byddai'r rhain yn cael eu cyfri a'r radd gyffredinol yn cael ei phennu, fel yn yr enghraifft dros y dudalen.

| **Tasg** | **Tystiolaeth** | **Y radd ar gyfer y dasg** | Pasio (1 pwynt)<br>Teilyngdod (2 bwynt)<br>Rhagoriaeth (3 phwynt) |
|---|---|---|---|
| A | Cynhyrchu llyfr steil | | |
| B | Cynhyrchu siart | | |
| C | Arsylwi Ymarferol | | |
| | | =Cyfanswm y marciau ar gyfer y tasgau gafodd eu graddio | |
| | | Rhannu â | ÷ 2 |
| | | = | |
| | | Gradd gyffredinol (gweler y siart trosi) | |

**Siart Trosi**

| **Cyfartaledd** | **Gradd** |
|---|---|
| 1 – 1.5 | Pasio |
| 1.6 – 2.5 | Teilyngdod |
| 2.6 – 3 | Rhagoriaeth |

**Enghraifft o Daflen Marciau Aseiniad – Aseiniadau Lefel 2**

Rhoddir pwyntiau ar gyfer **pob tasg ymarferol.** Pasio = 1 Pwynt, Teilyngdod = 2 bwynt, Rhagoriaeth = 3 pwynt.

| **Tasgau gwybodaeth** | **Tystiolaeth** | **Tasg** | **Prawf ar-lein** |
|---|---|---|---|
| | | *Ticiwch pan fydd wedi'i gwblhau* | |
| 1a | Cynhyrchu taflen wybodaeth | | |
| 1b | Cynhyrchu siart | | |
| 1c | Cynhyrchu siart | | |
| Prawf amlddewis ar-lein GOLA | | | |

| **Tasgau ymarferol** | **Tystiolaeth** | **Y radd ar gyfer y dasg** | Pasio (1 pwynt)<br>Teilyngdod (2 bwynt)<br>Rhagoriaeth (3 pwynt) |
|---|---|---|---|
| 2a | Gwallt sych | | |
| 2b | Ôl y cynnyrch/Gwallt olewog | | |
| 2c | Gwallt normal | | |
| | | Cyfanswm y marciau ar gyfer y tasgau gafodd eu graddio | |
| | | Rhannu â | **÷ 3** |
| | | = | |
| | | Gradd gyffredinol (gweler y siart trosi) | |

**Siart Trosi**

| **Cyfartaledd** | **Cyfartaledd** |
|---|---|
| 1 – 1.5 | 1 – 1.5 |
| 1.6 – 2.5 | 1.6 – 2.5 |
| 2.6 – 3 | 2.6 – 3 |

Byddai'r rhain yn cael eu cyfrif a'r radd gyffredinol yn cael ei phennu, fel yn yr enghraifft dros y dudalen.

**Siart trosi y radd gyffredinol**
Er mwyn cyfuno'r graddau ar gyfer y **tasgau sydd wedi'u graddio**:

- adiwch y pwyntiau a'u rhannu gyda chyfanswm y nifer a ddarparwyd (fel arfer cyfanswm nifer y tasgau sydd wedi'u graddio) er mwyn cael cyfartaledd, gan ddefnyddio'r grid a ddarperir
- defnyddiwch y siart trosi i'w trosglwyddo'n ôl i radd gyffredinol.

**Ffurflenni cofnodi**
Mae City & Guilds wedi cynhyrchu

- profformau y gellir eu defnyddio i gwblhau'r tasgau gwybodaeth
- ffurflenni crynodeb o gyrhaeddiad

Ceir fersiynau Word o'r ddwy ddogfen i'w lawrlwytho oddi ar dudalen we 3002 yn **www.cityandguilds.com**.

**Achrediad o addysgu / cyrhaeddiad blaenorol**
Efallai bod rhai ymgeiswyr eisoes wedi dilyn rhaglen gyda threfn asesu debyg, er bod hynny ar lefel is. Gall gwaith blaenorol, yn enwedig o ran ymchwilio neu dasgau 'dod o hyd i wybodaeth', gyfrif boed yn gyfan neu'n rhannol, tuag at waith yr aseiniad yn y mathau hyn o gymwysterau.

Fodd bynnag, dylid cadw at y rheolau cyffredinol o ran gwerthuso tystiolaeth (VACS), hynny yw bod cyswllt amlwg rhwng yr hyn a gynhyrchwyd yn gynharach a'r dystiolaeth sy'n ofynnol yn y mathau yma o gymwysterau (dilysrwydd); bod y gwaith a gyflwynir yn waith gwirioneddol gan yr ymgeisydd (dilysrwydd); nad oedd y gwaith wedi'i gwblhau gryn amser yn ôl nes ei bod naill ai wedi anghofio'r hyn a ddysgwyd neu fod deddfwriaeth wedi'i chyflwyno neu'i newid yn y cyfamser (cyfredolrwydd); a bod digon o dystiolaeth i gadarnhau bod gofynion yr uned wedi'u bodloni (digonolrwydd).

Dylai'r modd y gwnaethpwyd y dyfarniadau APL/APA fod yn glir i'r Dilyswr Allanol wrth samplu yn ystod ymweliadau.

**Codau Ymarfer**
Dylid cadw bob amser at arferion gwaith diogel, gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a'r Codau Ymarfer sy'n gysylltiedig â'r diwydiant.

**Iechyd a Diogelwch**
Mae'r gofyniad i ddilyn ymarferion gweithio diogel yn rhan ganolog o holl gymwysterau ac asesiadau City & Guilds, a chyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch perthnasol yn eu lle cyn i ymgeiswyr ddechrau ar eu hasesiadau ymarferol.

Os nad yw ymgeisydd yn dilyn yr arferion a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch cywir yn ystod asesiad, **mae'n rhaid stopio'r** asesiad a dylid rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y rhesymau pam. Dylid hysbysu'r ymgeisydd nad ydynt wedi cyrraedd safon ofynnol yr asesiad. Gall ymgeiswyr ailsefyll yr asesiad ar ddyddiad arall, yn ôl doethineb y ganolfan. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid gofyn am gyngor gan y Dilyswr Allanol.

**Dilysu aseiniadau**
Drwy ddefnyddio rhestrau gwirio wrth farcio gall dilyswyr allanol wirio bod y dystiolaeth ar gyfer aseiniad yn gyflawn a bod dyraniad y marciau yn deg a thu hwnt i ddadlau.

Mae'n rhaid i aseswyr sicrhau fod ymgeiswyr yn deall pam y rhoddwyd gradd benodol ar gyfer yr aseiniad. Dyma'r rheswm pam y mae City & Guilds yn gofyn am lofnod yr aseswr a'r ymgeisydd ar y daflen marcio aseiniad terfynol.

Os dewisir gwaith ymgeisydd at ddibenion dilysu, mae'n rhaid darparu enghreifftiau o'r gwaith i'r Dilyswr Allanol a benodir. Bydd y Dilyswr Allanol yn sicrhau fod:

- y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd yn cyflawni ei ddyletswyddau ef / ei dyletswyddau hi.
- y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd yn derbyn adborth prydlon, cywir ac adeiladol ar weithrediadau'r ganolfan.
- yr adroddiad yn cael ei ysgrifennu ar weithgareddau'r ganolfan ar gyfer City & Guilds.

**Sicrhau ansawdd mewnol**

Mae'n rhaid i ganolfannau sydd wedi'u cymeradwyo feddu ar systemau sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau cyflwyno ac asesu'r cymwysterau yn y dull gorau posib.

Mae sicrhau ansawdd yn cynnwys cymeradwyaeth gychwynnol i'r ganolfan, cymeradwyaeth i'r cymhwyster ac i ddulliau mewnol y ganolfan ei hun ar gyfer monitro ansawdd. Cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau ansawdd mewnol, a chyfrifoldeb City & Guilds yw sicrhau ansawdd allanol.

Ceir gwybodaeth lawn a chyfarwyddyd ar y gofynion a'r dulliau o sicrhau ansawdd mewnol ac allanol yn *Providing City & Guilds Qualifications.* Mae'r ddogfen hon hefyd yn esbonio'r tasgau, y gweithgareddau a chyfrifoldebau'r staff sy'n sicrhau ansawdd.

Er mwyn cefnogi'r ymgeiswyr yn llawn, mae'n ofynnol i ganolfannau gadw copïau o gofnodion asesu'r ymgeiswyr am dair blynedd yn dilyn ardystiad.

Mae rhwydd hynt hefyd i'r canolfannau gynllunio'u haseiniadau eu hunain, os ydynt o'r farn eu bod yn adlewyrchu gofynion lleol yn well, ac fe'u hanogir i fod mor greadigol a dyfeisgar â phosib, yn enwedig gyda'r ymchwil neu'r tasgau 'dod o hyd i wybodaeth'. Dylai'r cynigion lleol hyn gyflawni'r un pwrpas asesu ag aseiniadau gosod City & Guilds, dylid defnyddio'r un meini prawf ar gyfer marcio a graddio, a dylai City & Guilds a'r Dilyswr Allanol eu cytuno cyn eu defnyddio, dylai'r Dilyswr Allanol hefyd eu samplu cyn y gellir hawlio'r asesiadau.

**Cofnodi ar gyfer asesu ac ardystio**

Dylid cofrestru ymgeiswyr a chofnodi ar gyfer y prawf/profion amlddewis ar-lein drwy gyfrwng y Walled Garden. Dylid cyflwyno canlyniadau ar gyfer aseiniadau ar ffurf graddau drwy gyfrwng y Walled Garden. Dim ond yr unedau hynny y llwyddwyd i'w hennill y dylid eu cynnwys. Mae pob rhif uned yn cael ei osod gyda llythrennau P (Pasio), T (Teilyngdod) neu Rh (Rhagoriaeth) i nodi'r radd y mae'r ymgeisydd wedi'i hennill.

## 2 Cyflwyniad i’r aseiniadau – i ymgeiswyr

Er mwyn cwblhau’r cymhwyster, mae’n ofynnol i chi gyflawni:

- tasgau ymarferol, pan fydd yn ofynnol i chi arddangos sgiliau galwedigaethol a
- tasg(au) gwybodaeth a dealltwriaeth mewn aseiniad **neu** mewn prawf/profion ar-lein, lle bydd yn ofynnol i chi arddangos eich gwybodaeth o’r pwnc.

Mae modd i chi sefyll naill ai y prawf ar-lein neu gwblhau’r tasgau yn yr aseiniadau. **Nid** yw’n ofynnol i chi sefyll y ddau ar gyfer uned, ond mae modd i chi ddefnyddio cyfuniad er mwyn ennill y cymhwyster.

Mae **pob** aseiniad wedi’i raddio. Dyfernir gradd o **basio, teilyngdod** neu **ragoriaeth** i chi yn dibynnu ar eich perfformiad.

**Amseru**

Nid oes unrhyw derfyn amser penodol ar gyfer cwblhau’r aseiniad. Fodd bynnag, bydd eich tiwtor yn eich cynghori o ran uchafswm yr amser y dylech ei ganiatáu ar gyfer cwblhau’r holl aseiniadau gofynnol o fewn yr amser sydd ar gael ar gyfer y cwrs. Bydd yr amserlen o ran cwblhau’r aseiniadau yn cael ei thrafod rhwng eich tiwtor a chi. Fodd bynnag, gall y ffaith nad ydych yn cyflwyno eich gwaith mewn pryd, heb reswm digonol, olygu eich bod yn methu’r aseiniad.

Gallwch drafod eich gwaith gyda’ch tiwtor er mwyn cael adborth o ran a yw cywirdeb a chyfanswm y gwaith yr ydych wedi’i gyflawni yn ddigonol i chi basio. Fodd bynnag, bydd hefyd angen i chi fodloni dyddiadau cau'r ganolfan o ran cyflwyno gwaith.

**Cyflwyno’r gwaith**

Mae’n rhaid bod cyflwyniad y gwaith yn ddestlus ac yn briodol ar gyfer y dasg. Dylech baratoi blaenddalen ar gyfer pob aseiniad a thudalen gynnwys er mwyn cyflwyno’ch gwaith mewn dilyniant clir a rhesymegol. Labelwch bob tasg fel eu bod yn hawdd eu gweld.

Fe’ch anogir i airbrosesu eich aseiniadau gan fod hyn yn edrych yn broffesiynol, ond efallai nad yw hyn yn hanfodol a dylech wirio hyn gyda’ch tiwtor os oes modd i chi wneud.

Ar gyfer tasgau ymchwilio a chofnodi efallai eich bod am gyfeirio at lyfrau, at wybodaeth a roddwyd i chi gan eich tiwtor neu drwy ymchwilio ar y we. Os ydych yn gwneud hyn, cofiwch gynnwys cyfeirnod i ddangos o ble y daeth y gwaith. Mae’n rhaid i chi hefyd ddarparu atebion yn eich geiriau eich hun – mae’ch aseswr yn gwybod sut yr ydych fel arfer yn mynegi eich hun felly bydd yn gwybod os ydych wedi lawrlwytho deunydd neu ei gopïo’n uniongyrchol o lyfr testun. Mae’n rhaid i chi hefyd gynnwys siartiau, lluniau a thaflenni perthnasol yr ydych wedi’u casglu. Defnyddiwch liwiau, symbolau a diagramau lle bynnag yr ydych yn credu y byddant yn help i egluro eich atebion.

Bydd eich tiwtor/aseswr yn eich arwain os oes unrhyw ran o’r aseiniad nad ydych yn ei ddeall.

**Arsylwadau ymarferol**

Cyn cyflwyno eich hun ar gyfer y dasg arsylwi derfynol ar gyfer aseiniad, sicrhewch:

- bod eich tiwtor/aseswr yn cytuno eich bod yn barod ar gyfer yr asesiad. Bydd hwn fel arfer yn deillio o’r log o’r gwaith ymarferol amrywiol yr ydych wedi’u cwblhau yn ystod y cwrs;
- Er mwyn cyflawni’r asesiad yn ddiogel sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â’r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, rheoliadau COSHH a’r Ddeddf Trydan yn y Gwaith, sy’n berthnasol i chi, y cleient a’r salon. Hefyd, oherwydd y peryglon penodol sy’n gysylltiedig â

gwasanaethau, bydd angen i chi fod yn gyfarwydd â'r detholiad a'r defnydd cywir o offer diffodd tân. Nodwch os byddwch yn cael eich arsylwi yn cyflawni gwaith mewn dull anniogel ar unrhyw adeg yn ystod yr asesiad bydd eich aseswr yn dod â'r arsylwad i ben yn syth.

# Ffurflen adborth aseiniad

# Ffurflen adborth aseiniad

## Teitl y Cymhwyster / llwybr:

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd | Dyddiad cyflwyno |
| Enw'r aseswr | |

| |
|---|
| Rhif yr uned(au) a'r teitl(au) |

| **Cyfeirnod y dystiolaeth** | **Adborth** | **Dyddiad targed a chynllun gweithredu ar gyfer ailgyflwyno** |
|---|---|---|
| | | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y penderfyniad terfynol ar gyfer yr asesiad | Gradd yr aseiniad |

Rwy'n cadarnhau bod yr asesiad hwn wedi'i gwblhau i'r safon ofynnol ac yn bodloni'r gofynion o ran cyfredolrwydd, dilysrwydd a digonolrwydd.

| |
|---|
| Llofnod yr aseswr a'r dyddiad: |
| Llofnod y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd a'r dyddiad (lle bo'n berthnasol): |

# 3 Aseiniadau

# Aseiniad 201 Gweithio yn y diwydiant trin gwallt

## Trosolwg o'r aseiniad

Mae **dau** ganlyniad dysgu i'r uned hon:

1. Y gallu i ddisgrifio nodweddion allweddol y diwydiant trin gwallt
2. Y gallu i ddisgrifio arferion gwaith yn y diwydiant trin gwallt

Dyma grynodeb o'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer cwblhau'r uned hon.

| Tasg | Y dystiolaeth sy'n ofynnol | Ymdriniaeth o'r dasg |
|---|---|---|
| 1a | Cynhyrchu taflen ffeithiau | LO1: UK2, UK3 |
| 1b | Cynhyrchu canllaw gyrfa | LO1: UK1, UK4, UK5, UK6, UK7<br>LO2: UK1, UK2, UK 3 |
| 1c | Cynhyrchu taflen wybodaeth | LO2: UK 4, UK5 |

**Canllawiau'r aseswr**

**Tasgau 1a, 1b ac 1c**

**Nid** yw'r tasgau yma wedi'u graddio. Er mwyn pasio, mae'n rhaid bod yr ymgeiswyr wedi ymdrin â'r holl bwyntiau bwled ymhob tasg gan ddangos cywirdeb a dealltwriaeth.

### Tasg 1a Cynhyrchu taflen wybodaeth

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu taflen ffeithiau ar **chwech** o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig mewn salonau trin gwallt. Dylai'r wybodaeth gynnwys:

- manylion byr am bob gwasanaeth
- strwythur a swyddogaethau'r staff o fewn salon sy'n darparu'r gwasanaethau.

### Tasg 1b Cynhyrchu taflen gyrfa

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr amlinellu isafswm o **ddau**:

- y math o sefydliadau yn y diwydiant trin gwallt
- llwybrau gyrfa mewn salon trin gwallt ac yn y diwydiant
- y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael
- y cyfleoedd addysg a hyfforddiant
- y cyfleoedd i drosglwyddo i sectorau neu ddiwydiannau eraill
- y cyfleoedd i ddatblygu a hyrwyddo eich delwedd bersonol, a pham mae hyn yn bwysig

Dylai'r canllaw hefyd gynnwys amlinelliad o arferion gwaith da yn y salon.

### Tasg 1c Cynhyrchu taflen wybodaeth

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr amlinellu cyfrifoldebau a hawliau sylfaenol y gweithiwr. Dylai'r daflen wybodaeth gynnwys gwybodaeth ar y canlynol:

- contract gwaith
- isafswm cyflog
- rheoliadau oriau gwaith
- ble i gael cymorth ynglŷn â materion cyflogaeth
- yr hawl i gyfrinachedd
- cyfleoedd cyfartal
- trefn ddisgyblu
- tâl salwch statudol

# Aseiniad 201 Gweithio yn y diwydiant trin gwallt

Taflen marciau aseiniad

Enw'r ymgeisydd ______________________ Rhif yr ymgeisydd ______________________

Enw'r ganolfan ______________________ Rhif y ganolfan ______________________

| Tasgau gwybodaeth | Tystiolaeth | Tasg | Prawf ar-lein |
|---|---|---|---|
| | | *Ticiwch pan fydd wedi'i gwblhau* | |
| 1a | Cynhyrchu taflen ffeithiau | | |
| 1b | Cynhyrchu canllaw gyrfa | | |
| 1c | Cynhyrchu taflen wybodaeth | | |
| Prawf ar-lein amlddewis GOLA | | | |
| | Gradd gyffredinol | | |

Er mwyn hawlio gradd, mae'n rhaid i ymgeiswyr naill ai basio'r **holl** dasgau gwybodaeth neu'r prawf ar-lein perthnasol

Llofnod yr ymgeisydd ______________________ Dyddiad ______________________

Llofnod yr aseswr ______________________ Dyddiad ______________________

Llofnod y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd (lle bo'n briodol) ______________________ Dyddiad ______________________

Llofnod y Dilysydd Allanol (lle bo'n briodol) ______________________ Dyddiad ______________________

# Aseiniad 202 Dilyn arferion iechyd a diogelwch yn y salon

## Trosolwg o'r aseiniad

Mae **dau** ganlyniad dysgu i'r uned hon:

1. Y gallu i gynnal arferion iechyd a diogelwch
2. Y gallu i ddilyn gweithdrefnau mewn argyfwng

Dyma grynodeb o'r dystiolaeth sydd eu hangen ar gyfer yr uned hon.

| Tasg | Y dystiolaeth sydd ei angen | Ymdriniaeth o'r dasg |
|---|---|---|
| 1a | Cynhyrchu siart | LO1: UK1, UK 2, UK3 |
| 1b | Cynhyrchu poster | LO2: PS1, PS2, PS5, UK1, UK3, UK5 |
| 1c | Cynhyrchu taflen iechyd a diogelwch | LO1: PS3, PS4, PS6, PS9, UK7, UK8, UK9, UK10, UK11,<br>UK12, UK13<br>LO2: UK3, UK4 |
| 1ch | Cynhyrchu siart | LO1: PS2, UK4, UK5, UK6, |

**Canllaw'r aseswr**

**Tasgau 1a, 1b, 1c ac 1ch**

**Nid** yw'r tasgau yma wedi'u graddio. Er mwyn pasio, mae'n rhaid i ymgeiswyr ymdrin â'r **holl** bwyntiau bwled ymhob tasg gan arddangos cywirdeb a dealltwriaeth.

Mae City & Guilds wedi cynhyrchu profformau y gellir eu defnyddio i gwblhau tasgau 1a ac 1ch. Ceir fersiynau Word o'r profformau i'w lawrlwytho o dudalen we 3002 yn **www.cityandguilds.com**

# Aseiniad 202 Dilyn arferion iechyd a diogelwch yn y salon

## Tasgau

### Tasg 1a Ymchwilio a chynhyrchu siart

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr amlinellu prif gyfrifoldebau'r gweithiwr a'r cyflogwr yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Rheoliadau Offer Diogelwch Personol yn y Gwaith
- Rheoliadau'r Gweithle
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- Rheoliadau Darpariaeth a Defnydd o Offer Gwaith
- Rheoliadau Trydan yn y Gwaith
- Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

### Tasg 1b Cynhyrchu poster

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- ddisgrifio gwahanol fathau o offer diffodd tân ar gyfer gwahanol fathau o dân
- nodi peryglon y defnydd anghywir o offer diffodd tân
- disgrifio'r gweithdrefnau o ymdrin ag argyfyngau.

### Tasg 1c Cynhyrchu taflen iechyd a diogelwch

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- nodi pwrpas offer diogelwch personol (PPE) a ddefnyddir yn ystod gwahanol wasanaethau
- nodi pwysigrwydd cyflwyniad, hylendid ac ymddygiad personol wrth gynnal iechyd a diogelwch yn y salon
- amlinellu dwy dechneg o reoli haint a'u heffeithiolrwydd a'u cyfyngiadau
- disgrifio **dau** ddull a ddefnyddir yn y salon i sicrhau glendid
- disgrifio **dau** wahanol fath o wastraff o'r salon a'r dulliau o'u gwaredu
- nodi pwysigrwydd cynnal diogelwch eiddo
- disgrifio'r dulliau ar gyfer adrodd a chofnodi damweiniau a pham mae hyn yn bwysig.

### Tasg 1ch Ymchwilio a chynhyrchu siart

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- nodi'r gwahaniaeth rhwng perygl a risg
- nodi **dau** berygl a all ddigwydd yn y salon a'r risg posibl
- nodi **dau** berygl y bydd efallai angen eu cyfeirio

# Aseiniad 202 Dilyn arferion iechyd a diogelwch yn y salon

## Taflen marciau aseiniad

Enw'r ymgeisydd ______________________ Rhif yr ymgeisydd ______________________

Enw'r ganolfan ______________________ Rhif y ganolfan ______________________

| **Tasgau gwybodaeth** | **Tystiolaeth** | **Tasg** | **Prawf ar-lein** |
|---|---|---|---|
| | | *Ticiwch pan fydd wedi'i gwblhau* | |
| 1a | Cynhyrchu siart | | |
| 1b | Cynhyrchu poster | | |
| 1c | Cynhyrchu taflen | | |
| 1ch | Cynhyrchu siart | | |
| Prawf ar-lein amlddewis GOLA | | | |
| | Gradd gyffredinol | | |

Er mwyn hawlio'r radd, mae'n rhaid i ymgeiswyr basio'r **holl** dasgau gwybodaeth neu'r prawf ar-lein perthnasol.

Llofnod yr ymgeisydd ______________________ Dyddiad ______________________

Llofnod yr aseswr ______________________ Dyddiad ______________________

Llofnod y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd (lle bo'n briodol) ______________________ Dyddiad ______________________

Llofnod y Dilysydd Allanol (lle bo'n briodol) ______________________ Dyddiad ______________________

# Aseiniad 203 Ymgynghori â'r cleient am wasanaethau trin gwallt

## Trosolwg o'r aseiniad

Mae **dau** ganlyniad dysgu i'r uned hon:

1. Y gallu i ymgynghori a chynghori cleientiaid
2. Adnabod nodweddion y gwallt

| Tasg | Y dystiolaeth ofynnol | Ymdriniaeth o'r dasg |
|---|---|---|
| 1a | Ymchwilio a chynhyrchu siart | LO1: UK6, UK7, UK8, UK9<br>LO2: UK1 |
| 1b | Ymchwilio a chynhyrchu siart | LO1: UK4 |
| 1c | Cynhyrchu canllaw | LO1: UK3, UK11, UK12, UK13 |
| 1ch | Cynhyrchu taflen ffeithiau | LO1: UK5<br>LO2: UK2, UK 3, UK4, UK5, UK6 |
| 2 | Arsylwi ymarferol | LO1: PS1, PS2, PS3, PS4, PS5, PS6, PS7, PS8, UK1, UK2<br>LO2: UK1, UK2, UK3, UK4, UK5, UK6 |

Dyma grynodeb o'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr uned hon.

**Canllaw'r aseswr**

**Tasgau 1a, 1b, 1c ac 1ch**

**Nid** yw'r tasgau yma wedi'u graddio. Er mwyn pasio, mae'n rhaid i ymgeiswyr ymdrin â'r **holl** bwyntiau bwled ymhob tasg gan arddangos cywirdeb a dealltwriaeth

Mae City & Guilds wedi cynhyrchu profformau y gellir eu defnyddio i gwblhau tasgau 1a ac 1b. Ceir fersiynau Word o'r profformau i'w lawrlwytho oddi ar dudalen we 3002 yn **www.cityandguilds.com**.

**Tasg 2**

Mae Tasg 2 wedi'i graddio. Mae'n rhaid arddangos yr **holl** feini prawf ar y rhestr wirio yn llwyddiannus. Ar gyfer y meini prawf marcio a graddio gweler *Tasg 2 – Rhestr wirio'r arsylwad ymarferol*

**Ni** chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio'r rhestr wirio wrth gwblhau'r tasgau ymarferol, ond mae modd iddynt gyfarwyddo â'r rhestr cyn yr arsylwad.

# Aseiniad 203 Ymgynghori â'r cleient am wasanaethau trin gwallt

Tasgau

### Tasg 1a Ymchwilio a chynhyrchu siart

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu siart ar yr anhwylderau canlynol ar y gwallt a chroen y pen:

- **un** heigiad
- **dau** heintiad
- **tri** chyflwr nad ydynt yn heintus i'r gwallt a chroen y pen.

Er mwyn cwblhau'r dasg, mae'n ofynnol i ymgeiswyr nodi:

- sut i adnabod **pob** cyflwr
- unrhyw gyfyngiadau i'r gwasanaeth
- a fydd angen cyfeirio meddygol
- pam mae'n bwysig adnabod a chofnodi ffactorau cyfyngol a gwrth-arwyddion
- pam mae'n bwysig peidio ag enwi gwrth-arwyddion y gellir eu cyfeirio.

### Tasg 1b Ymchwilio a chynhyrchu siart

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr egluro pam a sut i gyflawni'r profion canlynol i'r gwallt a'r croen:

- prawf amsugnedd
- prawf elastigedd
- prawf croen
- prawf gwrthnawsedd

### Tasg 1c Cynhyrchu canllaw

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- nodi'r pwysigrwydd o ddefnyddio cofnodion y cleient
- disgrifio sut y dylid cynnal a chadw cofnodion y cleient
- nodi pwysigrwydd cadw cyfrinachedd y cleient
- amlinellu'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio sut y defnyddir gwybodaeth yn ystod ymgynghoriad â'r cleient

### Tasg 1ch Cynhyrchu taflen ffeithiau

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddisgrifio.

- strwythur sylfaenol y croen a'r gwallt
- cylch tyfiant y gwallt a chyfradd gyfartalog tyfiant y gwallt
- nodweddion strwythur y gwallt gyda gwahanol fathau o wallt
- **dau** ffactor sy'n cyfrannu tuag at wallt iach
- pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, polisi'r salon a'r gofynion cyfreithiol

Gall ymgeiswyr ddefnyddio diagramau i ddisgrifio strwythur y croen a'r gwallt.

# Aseiniad 203 Ymgynghori â’r cleient am wasanaethau trin gwallt

Tasgau

**Tasg 2** **Arsylwi ymarferol**

Mae’n ofynnol i ymgeiswyr gael eu harsylwi yn ymgynghori â’r cleient ar gyfer **pob un** o’r canlynol:

a. gwasanaeth siampŵ
b. gwasanaeth steilio
c. un gwasanaeth arall o’u dewis

**Ni** chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio’r rhestr wirio wrth gwblhau'r tasgau ymarferol, ond mae modd iddynt gyfarwyddo â’r rhestr cyn yr arsylwad.

# Aseiniad 203 Ymgynghori â'r cleient am wasanaethau trin gwallt

## Tasg 2 – Rhestr wirio'r arsylwi ymarferol

Enw'r ymgeisydd:

**Ni** chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio'r rhestr wirio wrth gwblhau'r tasgau ymarferol, ond mae modd iddynt gyfarwyddo â'r rhestr cyn yr arsylwad.

Mae'n rhaid bodloni'r **holl** feini prawf a gellir dyfarnu marciau i feini prawf sydd wedi'u nodi â * ar sail y disgrifyddion yn y tabl.

| | **Y gwasanaeth ymgynghori** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gosod siampŵ a chyflyrydd** | | | **Steilio** | | | **Un gwasanaeth arall** (nodwch) | | |
| 1. Cyfathrebu mewn modd sy'n rhoi hyder, ymddiriedaeth ac sy'n cynnal ewyllys da* | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| 2.Sefydlu gofynion y cleient o ran cynnyrch a gwasanaethau drwy ddefnyddio technegau cyfathrebu priodol* | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| 3.Edrych ar gofnodion y cleient | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 4.Nodi ffactorau a allai gyfyngu neu atal y dewis o wasanaeth neu gynnyrch | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 5.Cynghori'r cleient ar unrhyw ffactorau a allai gyfyngu, atal neu effeithio eu dewis o wasanaeth neu gynnyrch | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 6.Rhoi i'r cleient argymhellion cryf ar gyfer cyfeirio (os oes angen) | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 7.Awgrymu a chytuno ar wasanaeth neu gynnyrch* | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| 8. Cwblhau cofnodion y cleient | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 9. Dilynwyd arferion gwaith diogel a hylan | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| Cyfanswm | | | | | | | | | |
| Graddau | | | | | | | | | |
| Llofnod yr aseswr a'r dyddiad | | | | | | | | | |
| Llofnod yr ymgeisydd a'r dyddiad | | | | | | | | | |

| **Trosi'r marciau i raddau** | |
|---|---|
| **Gradd** | **Ystod y marciau** |
| **Pasio** | 9-10 |
| **Teilyngdod** | 11-13 |
| **Rhagoriaeth** | 14 - 15 |

Dylid cyfrif y cyfanswm ar gyfer **pob** arsylwad a defnyddio'r siart trosi i bennu'r radd gywir ar gyfer **pob** arsylwad.

## Aseiniad 203 Ymgynghori â'r cleient am wasanaethau trin gwallt

Tabl disgrifyddion arsylwadau ymarferol

| Disgrifyddion | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **1 Marc** | **2 Farc** | **3 Marc** |
| **1** | **Cyfathrebu mewn modd sy'n rhoi hyder, ymddiriedaeth ac sy'n cynnal ewyllys da** | Cyfathrebu minimal<br><br>Enghraifft: llafar; cwrtais, di-eiriau; cyfeillgar, safiad agored | Cyfathrebu da<br><br>Enghraifft: yn parchu sensitifrwydd gwybodaeth | Cyfathrebu gwych<br><br>Enghraifft: yn dangos dull calonogol a hyderus, yn ymateb yn unol â'r cleient |
| **2** | **Sefydlu gofynion y cleient o ran cynnyrch a gwasanaethau drwy ddefnyddio technegau cyfathrebu priodol** | Cyfathrebu minimal<br>Yn defnyddio technegau sylfaenol i gael gwybodaeth; yn sefydlu gofynion y cleient yn gywir<br><br>Enghraifft: yn defnyddio cwestiynau caeedig, yn defnyddio iaith briodol | Cyfathrebu da<br>Yn defnyddio technegau i gael a chynnig gwybodaeth; yn sefydlu gofynion y cleient yn gywir.<br><br>Enghraifft: yn defnyddio cwestiynau agored a chaeedig, yn ymwybod o iaith ei chorff ei hun, yn defnyddio cymhorthion gweledol | Cyfathrebu gwych<br>Yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau drwyddi draw; yn sefydlu gofynion y cleient yn gywir<br><br>Enghraifft: yn defnyddio iaith y corff yn effeithiol a thôn llais priodol, yn rhoi gwybodaeth i'r cleient drwy gydol y gwasanaeth |
| **7** | **Awgrymu a chytuno ar wasanaeth neu gynnyrch** | Yn darparu argymhellion sylfaenol<br><br>Enghraifft: yn argymell gwasanaeth a/neu gynnyrch | Yn rhoi argymhelliad da<br><br>Enghraifft: yn argymell gwasanaeth a/neu gynnyrch gan amlinellu'r manteision i'r cleient | Yn darparu lefel ardderchog o gyngor<br><br>Enghraifft: yn argymell gwasanaeth a chynnyrch gan amlinellu'r manteision i'r cleient ar sail y ffactorau dylanwadol |

# Aseiniad 203 Ymgynghori â'r cleient am wasanaethau trin gwallt

## Taflen marciau aseiniad

Enw'r ymgeisydd ______________________ Rhif yr ymgeisydd ______________________

Enw'r ganolfan ______________________ Rhif y ganolfan ______________________

| **Tasgau gwybodaeth** | **Tystiolaeth** | | **Tasg** | **Prawf ar-lein** |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Ticiwch pan fydd wedi'i gwblhau* | |
| 1a | Cynhyrchu siart | | | |
| 1b | Cynhyrchu siart | | | |
| 1c | Cynhyrchu canllaw | | | |
| 1ch | Cynhyrchu taflen ffeithiau | | | |
| Prawf ar-lein amlddewis GOLA | | | | |
| **Tasgau ymarferol** | **Tystiolaeth** | **Gradd ar gyfer y dasg** | Pasio (1 pwynt)<br>Teilyngdod (2 bwynt)<br>Rhagoriaeth (3 pwynt) | |
| 2a | Siampŵ a chyflyru | | | |
| 2b | Steilio | | | |
| 2c | Gwasanaeth o ddewis personol | | | |

**Siart Trosi**

| **Cyfartaledd** | **Gradd** |
|---|---|
| 1 – 1.5 | Pasio |
| 1.6 – 2.5 | Teilyngdod |
| 2.6 – 3 | Rhagoriaeth |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y pwyntiau ar gyfer y tasgau sydd wedi'u graddio | |
| Rhannu | **÷ 3** |
| = | |
| Gradd gyffredinol (gweler y siart trosi) | |

Er mwyn hawlio gradd, mae'n rhaid i ymgeiswyr basio'r tasgau ymarferol a naill ai'r **holl** dasgau gwybodaeth neu'r prawf ar-lein perthnasol.

Llofnod yr ymgeisydd ______________________ Dyddiad ______________________

Llofnod yr aseswr ______________________ Dyddiad ______________________

Llofnod y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd (lle bo'n briodol) ______________________ Dyddiad ______________________

Llofnod y Dilysydd Allanol (lle bo'n briodol) ______________________ Dyddiad ______________________

# Aseiniad 204 Gosod siampŵ a chyflyrydd ar y gwallt a chroen y pen

## Trosolwg o'r aseiniad

Mae **dau** ganlyniad dysgu i'r uned hon:

1. Y gallu i baratoi i osod siampŵ a chyflyrydd ar y gwallt a chroen y pen
2. Y gallu i roi siampŵ a chyflyrydd ar y gwallt a chroen y pen

Dyma grynodeb o'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr uned hon.

| Tasg | Y dystiolaeth ofynnol | Ymdriniaeth o'r dasg |
|---|---|---|
| 1a | Cynhyrchu taflen wybodaeth | LO2: UK2, UK5, UK6, UK7, UK8 |
| 1b | Ymchwilio a chynhyrchu siart | LO1: UK3, UK4, UK5<br>LO2: UK1 |
| 1c | Ymchwilio a chynhyrchu siart | LO1: UK4 |
| 2 | Arsylwi ymarferol | LO1: PS1, PS2, UK1, UK2<br>LO2: PS9, PS10, PS11, UK1, UK2, UK3, UK4, UK5, UK6, UK7 |

**Canllaw'r aseswr**

**Tasgau 1a, 1b ac 1c**

**Nid** yw'r tasgau yma wedi'u graddio. Er mwyn pasio, mae'n rhaid i ymgeiswyr ymdrin â'r holl bwyntiau bwled ymhob tasg gan arddangos cywirdeb a dealltwriaeth

Mae City & Guilds wedi cynhyrchu profformau y gellir eu defnyddio i gwblhau tasgau 1b ac 1c. Mae fersiynau Word o'r profformau ar gael i'w lawrlwytho o dudalen we 3002 yn **www.cityandguilds.com**

**Tasg 2**

Mae tasg 2 wedi'i graddio. Mae'n rhaid arddangos yr **holl** feini prawf ar y rhestr wirio yn llwyddiannus. Ar gyfer marcio a graddio'r meini prawf, gweler *Tasg 2 – Rhestr wirio'r arsylwad ymarferol*

**Ni** chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio'r rhestr wirio wrth gwblhau'r tasgau ymarferol, ond mae modd iddynt gyfarwyddo â'r rhestr cyn yr arsylwad.

# Aseiniad 204 Gosod siampŵ a chyflyrydd ar y gwallt a chroen y pen

Tasgau

## Tasg 1a Cynhyrchu taflen wybodaeth

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- ddisgrifio sut mae siampŵ a dŵr yn ymddwyn gyda'i gilydd wrth lanhau'r gwallt
- egluro pwysigrwydd ystyried cen y cwtigl wrth ddatglymu'r gwallt
- egluro lefelau pH y gwallt a'r croen a sut y mae asid pH a pH alcalinaidd yn effeithio cwtigl y gwallt
- disgrifio sut y mae tymheredd y dŵr yn effeithio strwythur y gwallt
- egluro pwysigrwydd rinsio'r gwallt yn drylwyr er mwyn cael gwared â chynnyrch siampŵ a chyflyrydd.

## Tasg 1b Ymchwilio a chynhyrchu siart

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu siart ar gyfer y cyflyrau gwallt a chroen y pen canlynol:

- sych
- olewog
- wedi'i effeithio gan gen
- wedi'i niweidio'n gemegol
- wedi'i niweidio â gwres.

Ar gyfer **pob un** o'r cyflyrau gwallt a chroen y pen, mae'n ofynnol i ymgeiswyr nodi:

- yr achosion
- y cynnyrch sydd ar gael i'w ddefnyddio (gan gynnwys effeithiau posib defnyddio cynnyrch anghywir)
- yr offer a'r cyfarpar sydd ar gael i'w defnyddio
- pam mae'n bwysig dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio cynnyrch, offer a chyfarpar.

## Tasg 1c Ymchwilio a chynhyrchu siart

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddisgrifio'r technegau tylino canlynol, eu heffeithiau ar y croen a phryd y dylid eu defnyddio:

- effleurage
- cylchdro
- petrissage.

# Aseiniad 204 Gosod siampŵ a chyflyrdd ar y gwallt a chroen y pen

## Tasgau

**Tasg 2 Arsylwad ymarferol**

Mae’n ofynnol i ymgeiswyr gael eu harsylwi’n cyflawni triniaeth siampŵ a chyflyrydd ar y mathau canlynol o wallt:

a. sych
b. ôl y cynnyrch/olewog
c. normal.

**Ni** chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio’r rhestr wirio wrth gwblhau’r tasgau ymarferol, ond mae modd iddynt gyfarwyddo â’r rhestr cyn yr arsylwad.

# Aseiniad 204 Gosod siampŵ a chyflyrydd ar y gwallt a chroen y pen

## Tasg 2 – Rhestr wirio'r arsylwad ymarferol

Enw'r ymgeisydd:

Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio'r rhestr wirio wrth gwblhau'r tasgau ymarferol, ond mae modd iddynt gyfarwyddo â'r rhestr cyn yr arsylwad.

Mae'n rhaid bodloni'r **holl** feini prawf a gellir dyfarnu marciau i feini prawf sydd wedi'u nodi â * ar sail y disgrifyddion yn y tabl.

| | **Gwasanaeth gosod siampŵ a chyflyrydd** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwallt sych** | | | **Ôl y cynnyrch/ Gwallt olewog** | | | **Gwallt Normal** | | |
| *Cwblhawyd y driniaeth gyflyru* | | | | | | | | | |
| *Defnyddiwyd cyflyrydd arwyneb* | | | | | | | | | |
| 1.Paratoi'r hunan, y cleient a'r ardal waith ar gyfer gwasanaethau siampŵ a chyflyru | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 2.Adnabod cyflwr y gwallt a chroen y pen drwy ddefnyddio technegau ymgynghori priodol* | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| 3. Dewis a defnyddio cynnyrch, offer a chyfarpar sy'n addas ar gyfer cyflwr gwallt a chroen pen y cleient. | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 4.Defnyddio ac addasu technegau tylino i fodloni gofynion y cleient* | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| 5. Addasu tymheredd a llif y dŵr i fodloni gofynion gwallt y cleient, croen y pen a'i bodlonrwydd, gan adael y gwallt yn lân ac yn rhydd o gynnyrch | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 6.Datglymu'r gwallt heb achosi niwed i'r gwallt na chroen y pen | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 7. Dilyn arferion gwaith diogel a hylan | 1 | | | 1 | | | 1 | | |
| 8. Darparu cyngor ôl-ofal addas* | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| 9.Cyfathrebu ac ymddwyn mewn dull proffesiynol* | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| Cyfanswm | | | | | | | | | |
| Graddau | | | | | | | | | |
| Llofnod yr aseswr a'r dyddiad | | | | | | | | | |
| Llofnod yr ymgeisydd a'r dyddiad | | | | | | | | | |

| **Trosi'r marciau i raddau** | |
|---|---|
| **Gradd** | **Ystod y marciau** |
| **Pasio** | 9-10 |
| **Teilyngdod** | 11 - 14 |
| **Rhagoriaeth** | 15 - 17 |

Dylid cyfrif y cyfanswm ar gyfer **pob** arsylwad a defnyddio'r siart trosi i bennu'r radd gywir ar gyfer **pob** arsylwad

## Aseiniad 204 Gosod siampŵ a chyflyrydd ar y gwallt a chroen y pen
## Tabl disgrifyddion arsylwi ymarferol

| Disgrifyddion | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **1 Marc** | **2 Farc** | **3 Marc** |
| **2** | **Adnabod cyflwr y gwallt a chroen y pen drwy ddefnyddio technegau ymgynghori priodol** | Yn cyflawni ymgynghoriad sylfaenol<br>Yn adnabod cyflwr y gwallt a chroen y pen yn gywir<br><br>Enghraifft: yn defnyddio cwestiynau caeedig | Yn cyflawni ymgynghoriad da<br><br>Enghraifft: yn defnyddio cwestiynau agored a chaeedig, yn ymwybodol o iaith bersonol y corff | Yn cyflawni ymgynghoriad trylwyr<br><br>Enghraifft: yn defnyddio cwestiynau agored a chaeedig, yn defnyddio iaith y corff effeithiol, yn ailadrodd cyfarwyddiadau yn glir er mwyn derbyn cadarnhad |
| **4** | **Defnyddio ac addasu technegau tylino i fodloni gofynion y cleient** | Yn defnyddio'r technegau tylino minimal sy'n ofynnol gydag ychydig iawn o addasu, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr | Yn defnyddio technegau tylino'n dda ac yn addasu gyda hyd a thrwch y gwallt | Yn arddangos lefel uchel o ddealltwriaeth o ran y defnydd a'r addasiad o'r amrywiaeth o dechnegau tylino, yn ystyried y cynnyrch a ddefnyddiwyd, anghenion a gofynion y cleient, cyflwr y gwallt a chroen y pen er mwyn cael y budd mwyaf |
| **8** | **Darparu cyngor ôl-ofal addas** | Yn darparu cyngor ôl-ofal sylfaenol<br><br>Enghraifft: y defnydd o gynnyrch | Yn darparu lefel dda o gyngor ôl-ofal<br><br>Enghraifft: y defnydd o gynnyrch ac offer | Yn darparu lefel ardderchog o gyngor ôl-ofal<br><br>Enghraifft: y defnydd o gynnyrch ac offer a'r gwasanaethau pellach sydd ar gael |
| **9** | **Cyfathrebu ac ymddwyn mewn dull proffesiynol** | Yn cyfathrebu ac yn ymddwyn yn foddhaol<br><br>Enghraifft: yn gwrtais, yn gyfeillgar, iaith y corff bositif, yn siarad yn glir | Yn cyfathrebu ac yn ymddwyn yn dda<br><br>Enghraifft: yn gwrtais, yn gyfeillgar, iaith y corff bositif, yn siarad yn glir, yn parchu cydweithwyr a chleientiaid, yn gwrando ac ymateb i ofynion y cleient | Cyfathrebu'n wych<br><br>Enghraifft: yn gwrtais, yn gyfeillgar, iaith y corff bositif, yn siarad yn glir, yn parchu cydweithwyr a chleientiaid, yn gwrando ac ymateb i ofynion y cleient, yn arddangos dull calonogol a hyderus |

## Aseiniad 204 Gosod siampŵ a chyflyrdd ar y gwallt a chroen y pen

## Taflen marciau aseiniad

Enw'r ymgeisydd ______________________ Rhif yr ymgeisydd ______________

Enw'r ganolfan ______________________ Rhif y ganolfan ______________

| **Tasgau gwybodaeth** | **Tystiolaeth** | **Tasg** | **Prawf ar-lein** |
|---|---|---|---|
| | | *Ticiwch pan fydd wedi'i gwblhau* | |
| 1a | Cynhyrchu taflen wybodaeth | | |
| 1b | Cynhyrchu siart | | |
| 1c | Cynhyrchu siart | | |
| Prawf ar-lein amlddewis GOLA | | | |

| **Tasgau ymarferol** | **Tystiolaeth** | **Y radd ar gyfer y dasg** | Pasio (1 pwynt)<br>Teilyngdod (2 bwynt)<br>Rhagoriaeth (3 phwynt) |
|---|---|---|---|
| 2a | Gwallt sych | | |
| 2b | Ôl y cynnyrch/Gwallt olewog | | |
| 2c | Gwallt normal | | |

**Siart Trosi**

| **Cyfartaledd** | **Gradd** |
|---|---|
| 1 – 1.5 | Pasio |
| 1.6 – 2.5 | Teilyngdod |
| 2.6 – 3 | Rhagoriaeth |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y pwyntiau ar gyfer y tasgau sydd wedi'u graddio | |
| Rhannu gan | **÷ 3** |
| = | |
| Gradd gyffredinol (gweler calonogol siart trosi ) | |

Er mwyn hawlio gradd, mae'n rhaid i ymgeiswyr basio'r tasgau ymarferol a naill ai'r **holl** dasgau gwybodaeth neu'r prawf ar-lein perthnasol.

Llofnod yr ymgeisydd ______________________ Dyddiad ______________

Llofnod yr aseswr ______________________ Dyddiad ______________

Llofnod y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd (lle bo'n briodol) ______________________ Dyddiad ______________

Llofnod y Dilysydd Allanol (lle bo'n briodol) ______________________ Dyddiad ______________

# Aseiniad 205 Hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau i'r cleientiaid yn y salon

## Trosolwg o'r aseiniad

Mae **un** canlyniad dysgu i'r uned hon:

1. Y gallu i hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau i'r cleient

Dyma grynodeb o'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr uned hon.

| Tasg | Y dystiolaeth ofynnol | Ymdriniaeth o'r dasg |
|---|---|---|
| 1a | Cynhyrchu taflen wybodaeth | LO1: UK11 |
| 1b | Cynhyrchu taflen hyrwyddo | LO1: UK4 |
| 1c | Cynhyrchu canllaw | LO1: PS5, UK1, UK5, UK6, UK7, UK8, UK9, UK10, UK12 |
| 2 | Arsylwi ymarferol | LO1: PS1, PS2, PS3, PS4, PS5, PS6, UK2, UK3 |

**Canllaw'r aseswr**

**Tasgau 1a, 1b ac 1c**

**Nid** yw'r tasgau yma wedi'u graddio. Er mwyn pasio, mae'n rhaid i ymgeiswyr ymdrin â'r holl bwyntiau bwled ymhob tasg gan arddangos cywirdeb a dealltwriaeth

Mae City & Guilds wedi cynhyrchu profformau y gellir eu defnyddio i gwblhau tasg 1a. Mae fersiynau Word o'r profformau ar gael i'w lawrlwytho o dudalen we 3002 yn **www.cityandguilds.com**

**Tasg 2**

Mae tasg 2 wedi'i graddio. Mae'n rhaid arddangos yn llwyddiannus yr **holl** feini prawf ar y rhestr wirio. Ar gyfer y meini prawf i farcio a graddio, gweler *Tasg 2 – Rhestr wirio'r arsylwad ymarferol.*

Os yw'n hyrwyddo'r un math o gynnyrch a gwasanaeth a ddisgrifir yn y daflen hyrwyddo a gafodd ei chynhyrchu fel rhan o dasg 1b, gall yr ymgeiswyr ddefnyddio'r daflen i gefnogi'r gweithgaredd hyrwyddo, ond **nid** yw hyn y orfodol

**Ni** chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio'r rhestr wirio wrth gwblhau'r tasgau ymarferol, ond mae modd iddynt gyfarwyddo â'r rhestr cyn yr arsylwad.

# Aseiniad 205 Hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau i'r cleientiaid yn y salon

Tasgau

## Tasg 1a Cynhyrchu taflen wybodaeth

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr egluro sut y mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn effeithio'r gwerthiant o gynnyrch a gwasanaethau yn y salon:

- Y Ddeddf Disgrifiadau Masnach
- Y Ddeddf Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau
- Y Ddeddf Gwarchod Defnyddwyr
- Y Ddeddf Gwarchod Data
- Y Ddeddf Diogelwch Defnyddwyr
- Y Ddeddf Prisiau

